# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 27AIN IONAWR, 2020**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 17.01.20)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd Jones
Beth Lawton
Dewi Wyn Roberts

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
Margaret E.Jones
David Wareing
Einir Young
Hywel Eifion Jones

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd, 2019 fel rhai cywir.

**5. ADRODDIADAU AR SAFONAU MOESEG MEWN TREFNIADAU ALLANOLI A CHYDWEITHIO**

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (i ddilyn).

**6. COFRESTR BUDDIANNAU AELODAU** 8 - 17

Ystyried adroddiad Yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) (ynghlwm).

**7. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 18 - 19

Ystyried adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (ynghlwm).

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 4 TACHWEDD 2019

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Beth Lawton.

**Aelodau Annibynnol:-** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Miss Margaret E.Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymuned:**- Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Croesawyd Mr Hywel Eifion Jones i'w gyfarfod cyntaf yn dilyn ei benodi'n aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

Cyfeiriwyd at farwolaeth ddiweddar Mr Sam Soysa, fu'n aelod brwd o'r Pwyllgor Safonau am nifer o flynyddoedd, ac yn Is-gadeirydd y pwyllgor rhwng 2012 a 2015. Cydymdeimlwyd â'r teulu yn eu profedigaeth.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Dewi Roberts.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, 2019 fel rhai cywir.

**5. COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro i'r pwyllgor fel rhan o'i waith o fonitro safonau o fewn y Cyngor, a gwahoddwyd yr aelodau i nodi, derbyn a chynnig unrhyw sylwadau ar gynnwys yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Nad oedd aelodau'n glir pryd i gofrestru rhodd / lletygarwch ai peidio. Mewn ymateb, eglurwyd, e.e. nad oedd lluniaeth a ddarperir fel rhan o gyfarfod arferol corff, megis Bwrdd Adra (*Cartrefi Cymunedol Gwynedd*), yn lletygarwch, ond bod lluniaeth a ddarperir, er enghraifft, gan gwmni preifat, fel rhan o arddangosfa cyn cyflwyno cais cynllunio, yn fater gwahanol, gan y gall fod ymgais yma i ddylanwadu ar yr aelod.

- Bod canfyddiad bod cynghorwyr yn derbyn llawer mwy o roddion a lletygarwch nag sy'n digwydd mewn gwirionedd.
- Mai aelodau'r Cabinet sydd â'r hawl i wneud mwyafrif y penderfyniadau bellach, ac nad oes gan yr aelodau eraill fawr o rôl penderfynu, ac eithrio ar faterion megis cynllunio.
- Y dylid cynnwys nodyn yn adroddiad blynyddol nesaf y Pwyllgor Safonau yn atgoffa'r aelodau o'r angen i gofrestru unrhyw gynnig o rodd / lletygarwch sy'n werth dros £25, pe derbynnir y cynnig hwnnw ai peidio.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad gyda'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 6 HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad yr Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod pryder nad oedd aelodau'n sylweddoli pa mor bwysig yw cyflwyno tystiolaeth wrth wneud cŵyn. Mewn ymateb, nodwyd bod llawer o gwynion yn ymwneud â sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol a phwysleisiwyd pwysigrwydd cymryd ciplun (*screen shot*) neu argraffiad o'r dystiolaeth yn syth rhag ofn i'r postiad ddiflannu. Nodwyd hefyd, er bod y dystiolaeth yn eithaf eglur mewn rhai achosion, bod yna fathau eraill o achosion sy'n llawer mwy anodd eu profi, ac yn ymwneud â phatrwm ymddygiad sy'n datblygu dros gyfnod o amser o fod yn rhywbeth yn ymddangos yn eithaf di-nod ar y cychwyn i fod yn rhywbeth llawer mwy difrifol. Roedd achosion o'r fath yn llawer fwy heriol gan fod casglu tystiolaeth yn golygu cofnodi dros gyfnod. Ychwanegwyd y bwriedid cyfeirio yn yr hyfforddiant aelodau at bwysigrwydd bod yn fyw i'r syniad o gadw cofnod o bopeth.
- Y dylid cynnwys nodyn yn adroddiad blynyddol nesaf y Pwyllgor Safonau, os bydd hyfforddiant wedi'i gynnal erbyn hynny, yn nodi bod y pwyllgor wedi ymateb i'r sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar adeg cyflwyno'r adroddiad blynyddol diwethaf ac wedi cael trafodaeth ar hyn.
- Nodwyd, er bod modd gwneud sylwadau eithaf hallt a beirniadol yn erbyn aelodau heb dorri'r côd, bod yna riniog na ddylid ei groesi. Bwriedid cyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn manylu ar ffyrdd o gefnogi aelodau sy'n dioddef aflonyddwch ar-lein o ba gyfeiriad bynnag.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad gyda'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR OMBWDSMON

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2018/19.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod yr adroddiad yn amlygu'r pwysau gwaith ar yr Ombwdsmon a'i dîm, gyda chwynion iechyd, a hefyd cwynion ynghylch cynghorau cymuned, yn mynd â llawer iawn o'u hamser. Roedd lle i genhadu a rhoi cefnogaeth i aelodau cynghorau cymuned, ac mewn achos o anghydfod, roedd cynnal trafodaeth yn gyfrwng i osod cyfeiriad.

- Cyfeiriwyd at y diffyg adnoddau i ymchwilio i gwynion a chwestiynwyd perthnasedd y côd cyflawn i gynghorau bychain. Nodwyd bod cynghorau cymuned yn amrywio'n aruthrol o ran maint, ac o ystyried natur rhai o'r cwynion ynghylch y cynghorau lleiaf, awgrymwyd y gallai côd llai a chliriach fod yn fwy addas ar eu cyfer.
- Nodwyd bod rhai cynghorau cymuned yn cael eu rhedeg yn broffesiynol iawn a bod eu holl seddi'n llawn, ond nid oedd hynny'n wir am bob un. Roedd cyfrifoldeb ar y clercod i gadw safonau ac roedd dyletswydd ar y clercod ac aelodau'r cynghorau cymuned i fynychu hyfforddiant a ddarperir ar eu cyfer.
- Awgrymwyd bod angen cynnal adolygiad o'r cynghorau cymuned oherwydd bod yna ormod o fwlch rhyngddynt â'r Cyngor Sir. Adroddwyd y cynhaliwyd ymchwiliad i'r sector yn ddiweddar ond nad oedd wedi cynhyrchu argymhellion am newid chwyldroadol. Nodwyd y cyfeiriwyd yng nghyfarfod diwethaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru at y ffaith bod amrywiaeth lefelau'r cynghorau yn heriol.
- Croesawyd y cyfeiriad yn yr adroddiad at agor swyddfa ym Mangor, er na ymhelaethwyd ar hynny o gwbl, a chwestiynwyd pam bod angen i brif swyddfa'r Ombwdsmon fod wedi'i lleoli yng Nghaerdydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**8. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar:-

(a) 29 Mehefin, 2018
(b) 26 Mehefin, 2019

Nodwyd bod yna ddiddordeb o Dde Cymru i ymuno â'r Fforwm erbyn hyn.

Gan gyfeirio'n benodol at eitem 7 o gofnodion cyfarfod 26 Mehefin, 2019, nodwyd y cafwyd trafodaeth gychwynnol yn y Fforwm ynglŷn â'r cysyniad o sefydlu Cyd-bwyllgor Safonau yn y Gogledd. Pwysleisiwyd ei bod yn ddyddiau cynnar iawn ar y funud ac nad oedd yn glir eto ai dyma'r cyfeiriad cywir ac a fyddai cydbwyllgor o'r fath yn ychwanegu gwerth ai peidio.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod yna heriau ynghlwm â chydweithio, er ei fod yn swnio'n dda ar bapur. Roedd Gwynedd yn sir heriol yn ddaearyddol, heb sôn am ychwanegu gweddill siroedd y Gogledd, a gallai cyd-bwyllgor o'r fath fynd yn anhylaw gan fod gan bawb eu trefniadau a'u systemau gwahanol eu hunain. Roedd y Gymraeg yn elfen arall na ellid ei diystyrru.
- Y dylid cydweithio o fewn ffiniau Gwynedd yn gyntaf, e.e. ar y cyd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, cyn ystyried ymestyn allan i siroedd eraill.
- Er bod yna amheuon ynglŷn â chydweithio'n rhy agos, bod lle i'r cynghorau rannu themâu, arbenigeddau, ac ati, drwy gyfrwng trefniant ar-lein o bosib'.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y cofnodion.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 11.55 y.b.

**CADEIRYDD**

# Eitem 6

| PWYLLGOR : | Pwyllgor Safonau |
|---|---|
| DYDDIAD : | 27 Ionawr 2020 |
| TEITL : | Cofrestr Buddiannau Aelodau |
| AWDUR : | Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol) |
| GWEITHREDU : | Er gwybodaeth |

**Cefndir**

1. Un o'r materion yn Rhaglen Waith y Pwyllgor yw derbyn adroddiad ar Gofrestr Fuddiannau aelodau.

**Cofrestr Buddiannau Aelodau Cyngor Gwynedd**

2. Dywed y Côd Ymddygiad i Aelodau bod raid i Gynghorwyr ddatgelu ar lafar gerbron unrhyw gyfarfod y maent ynddo, fodolaeth a natur unrhyw fuddiant personol sydd ganddynt mewn busnes sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod. Dywed ymhellach bod rhaid cofrestru'r buddiant hwnnw drwy roi hysbysiad ysgrifenedig yn cynnwys manylion y buddiant, manylion y busnes a llofnod i'r Swyddog Monitro.

3. Mae'r Côd Ymddygiad hefyd yn dweud bod yn rhaid i aelodau, o fewn 28 diwrnod ar ôl cael eu hethol, gofrestru eu buddiannau personol drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro. Rhaid hefyd ddarparu hysbysiad o unrhyw newid i'r buddiannau rheini ac o fodolaeth unrhyw fuddiannau newydd, o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol ohonynt.

4. Er mwyn cynorthwyo aelodau i gadw at ofynion y Côd Ymddygiad, mae'r Cyngor wedi darparu dwy ffurflen, un sydd yn addas ar gyfer y cofrestru ymlaen llaw a'r llall ar gyfer cofrestru datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd. Mae'r datganiadau a wneir ar y ddwy ffurflen yn ffurfio'r gofrestr fuddiannau. Atodir copïau o'r ffurflenni hyn.

5. Mae dyletswydd statudol ar y Swyddog Monitro i sefydlu a chadw'r gofrestr fuddiannau. Mae hon yn ddogfen gyhoeddus ac mae'n rhaid iddi fod ar gael yn un o swyddfeydd yr awdurdod i'w harchwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar unrhyw adeg resymol. Hefyd mae'n rhaid iddi gael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor. Yn achos y cyngor hwn cedwir y gofrestr bapur yn y pencadlys yng Nghaernarfon neu gellir gweld datganiadau pob aelod drwy eu tudalennau personol ar y wefan. Bydd y datganiadau a wneir mewn cyfarfodydd hefyd i'w gweld yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw.

**Cynghorau Cymuned**

6. Mae'r darpariaethau statudol uchod hefyd yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned ond gyda'r gwahaniaethau canlynol:

- Nid oes rheidrwydd ar aelodau i gofrestru buddiannau ymlaen llaw.
- Clerc y cyngor, yn hytrach na'r Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sefydlu a chadw'r gofrestr a derbyn hysbysiadau o fuddiannau.

7. Rydym wedi darparu copïau o ffurflenni Cyngor Gwynedd i'r cynghorau fel y gallant eu defnyddio fel templed pe dymunent. Tra nad oes rheidrwydd ar aelodau i gofrestru buddiannau ymlaen llaw, rydym yn hybu hyn fel arfer da i gynghorau tref a chymuned.

**Argymhelliad**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor

(a) Dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad

(b) Gynnig unrhyw sylwadau ar gamau y gellid eu cymryd mewn perthynas â chofrestru buddiannau

| **Ffurflen Cofrestru Buddiannau /Interests Registration Form**<br><br>**Cod Ymddygiad Aelodau Cyngor Gwynedd**<br>**Gwynedd Council Members Code of Conduct** | |
|---|---|

**Cofrestrwch eich buddiannau personol dan y penawdau priodol isod gan roddi "dim" lle nad oes gennych fuddiant. Mae rhaid cwblhau pob rhan o'r ffurflen a'i dychwelyd i'r Swyddog Monitro o fewn 28 diwrnod.**

**(***Os ydych yn ystyried fod unrhyw wybodaeth yn wybodaeth sensitif ( gweler Atodiad 1) dylsech gysylltu a'r Swyddog Monitro am arweiniad)*

**Register your personal interests under the appropriate heading below putting "none" where you do not have a relevant interest. You must complete every section of the form and return it to the Monitoring Officer within 28 days.**

*(If you consider the information to be sensitive information ( see Appendix 1) you should contact the Monitoring Officer for guidance.)*

**Enw/Name……………………………………………………………………………………………………………………**

| |
|---|
| **1.Gwaith, Swyddi a Busnes**<br>Unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;<br><br>**1. Employment, Jobs and Business**<br>Any employment, or business carried on by you |
| |
| **2. Eich Cyflogwr, Partneriaethau neu Gyfarwyddwriaethau**<br>Unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl.<br><br>**2. Your Employer, Partnerships or Directorships**.<br>Any person who employs or has appointed you, any firm in which you are a partner or any company for which you are a remunerated director. |
| |

| |
|---|
| |
| **3. Taliadau Etholiad a Chefnogaeth Ariannol**<br>unrhyw berson, ac eithrio'r Cygnor sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a dynnwyd gennych wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;<br><br>**3.Election Payments and Financial Support**<br>any person, other than the Council , who has made a payment to you in respect of your election or any expenses incurred by you in carrying out your duties as a member; |
| |
| **4.Cyfranddaliadau a Waranau ( "Securities") Mewn Cwmnïau**<br>Unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yng Ngwynedd , ac y mae gennych gyfranddaliadau neu waranau ( securities) eraill yn y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau'r corff hwnnw;<br><br>**4. Shareholdings and Securities in Companies**<br>Any corporate body which has a place of business or land in your authority's area, and in which you have a beneficial interest in a class of securities of that body that exceeds the nominal value of £25,000 or one hundredth of the total issued share capital of that body |
| |
| **5. Cytundebau gyda'r Awdurdod**<br>Unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn 4 uchod a'r Cyngor<br><br>**5. Contracts With the Authority**<br>Any contract for goods, services or works made between the Council and you or a firm in which you are a partner, a company of which you are a remunerated director, or a body of the description specified in sub-paragraph 4 above |
| |

| |
|---|
| |
| **6.Tir ac Eiddo**<br>Unrhyw dir neu eiddo Yng Ngwynedd yr ydych yn berchen arno neu yn dal les ynddo (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) gan gynnwys eich cartref.<br><br>**6. Land and Property**<br>Any land or properties in Gwynedd of which you are an owner, hold a lease of (alone or jointly with others) including your home. |
| |
| **7. Tenantiaeth gan y Cyngor**<br>Unrhyw dir y mae'r Cyngor yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn 4 uchod yn denant arno;<br><br>**7.Tenancies by the Council**<br>Any land where the landlord is the Council and the tenant is a firm in which you are a partner, a company of which you are a remunerated director, or a body of the description specified in sub-paragraph 4 above. |
| |
| **8.Penodiadau gan yr Awdurdod**<br>Unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich Cyngor i fod arno;<br><br>**8.Appointments by The Council**<br>Any body to which you have been elected, appointed or nominated by the Council; |
| |

**9.Aelodaeth neu Swyddogaeth Reoli Cyrff Cyhoeddus , Cymdeithasau Tai, Elusennau, Cymdeithasau a Chlybiau, Pleidiau Gwleidyddol (nad ydynt wedi eu datgan yn 8 uchod),**

Unrhyw;

- awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;
- cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;
- corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;
- undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu
- clwb preifat gymdeithas neu gymdeithasiad sy'n gweithredu o fewn ardal Gwynedd

yr ydych chi'n aelod ohono/ohoni neu'n dal swydd neu swyddogaeth o reolaeth y corff.

**9. Membership or Management Role of Public Bodies, Housing Associations, Charities, Clubs and Associations, Political Parties (which are not disclosed in 8 above).**

Any;

- public authority or body exercising functions of a public nature;
- company, industrial and provident society, charity or body directed to charitable purposes;
- body whose principal purposes include the influence of public opinion or policy;
- trade union or professional association; or
- private club, society or association operating within the Gwynedd area

in which you have membership or hold a position of general control or management.

**10. Trwydded o Dir**
Unrhyw dir yng Ngwynedd y mae gennych chi drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy

**10. Licence in Land**
Any land in Gwynedd in which you have a licence (alone or jointly with others) to occupy for 28 days or longer.

**Arwyddwyd /Signed………………………………………………………………………………………………………………………**

**Dyddiad /Date…………………………………………………………………………………………………………………………….**

## ATODIAD 1 / APPENDIX 1

| | |
|---|---|
| **18.5 Y GOFRESTR BUDDIANNAU AELODAU** | **18.5 THE REGISTER OF MEMBERS' INTERESTS** |
| 18.5.1 Cofrestru Buddiannau Ariannol ac Eraill ac Aelodaeth a Swyddi Rheoli. | 18.5.1 Registration of Financial and Other Interests and Memberships and Management Positions |
| (a) Yn amodol ar is-baragraff (c) mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o'r | (a)Subject to sub-paragraph(c) you must within 28 days of |
| (i) adeg y caiff côd ymddygiad eich awdurdod ei fabwysiadu neu y caiff darpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu o'ch | (i) your authority's code of conduct being adopted or the mandatory provisions of this model code being applied to your authority; or |
| (ii) etholiad neu benodiad i'r swydd (os yw hynny'n ddiweddarach), gofrestru eich buddiannau ariannol a buddiannau eraill, pan fyddant yn dod o fewn categori a grybwyllwyd ym mharagraff 8.4.1(b)(i) yng nghofrestr eich awdurdod a gynhelir o dan Adran 81(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod. | (ii)your election or appointment to office (if that is later) register your financial interests and other interests where they fall within a category mentioned in paragraph 18.4.1(b)(i) in your authority's register maintained under Section 81(1) of the Local Government Act 2000 by providing written notification to your authority's Monitoring Officer. |
| (b) Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd neu newid i unrhyw fuddiant personol a gofrestrwyd o dan baragraff (a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw neu'r newid hwnnw i fuddiant personol trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod. | (b)You must within 28 days of becoming aware of any new personal interest or change to any personal interest registered under sub-paragraph (a), register that new personal interest or change by providing written notification to your authority's Monitoring Officer. |
| (c) Nid yw paragraffau (a) a (b) yn berthnasol i wybodaeth sensitif a bennwyd un unol â pharagraff 18.5.2(a). | (c) Sub-paragraphs (a) and (b) do not apply to sensitive information determined in accordance with paragraph 18.5.2(a). |
| **18.5.2 Gwybodaeth Sensitif**<br>(a) Pan fyddwch o'r farn bod y wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw un o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif a bod Swyddog Monitro eich awdurdod yn cytuno, ni fydd angen i chi gynnwys y wybodaeth honno wrth gofrestru'r buddiant hwnnw, neu, fel y bo'n berthnasol newid i'r buddiant o dan baragraff 18.5.1. | **18.5.2 Sensitive Information**<br>(a)When you consider that the information relating to any of your personal interests is sensitive information and your authority's monitoring officer agrees, you need not include that information when registering that interest, or as the case may be a change to the interest under paragraph 18.5.1. |
| (b) Mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw newid i amgylchiadau sy'n golygu nad yw'r wybodaeth a eithriwyd o dan is-baragraff (a) yn wybodaeth sensitif mwyach, hysbysu Swyddog Monitro eich awdurdod gan ofyn i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod. | (b)You must, within 28 days of becoming aware of any change of circumstances which means that information excluded under sub-paragraph (a) is no longer sensitive information, notify your authority's monitoring officer asking that the information be included in your authority's register of members' interests. |
| (c) Yn y côd hwn, mae "gwybodaeth sensitif" yn golygu gwybodaeth y byddai caniatáu iddi gael ei harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu unigolyn sy'n byw gyda chi fod yn agored i drais neu fygythion. | (c)In this code, 'sensitive information' means information whose availability for inspection by the public creates, or is likely to create, a serious risk that you or a person who lives with you may be subjected to violence or intimidation. |

# Hysbysiad o Fuddiant Personol/ Notification of Personal Interest

## Cod Ymddygiad Aelodau / Members' Code of Conduct

**Rwyf i, y Cynghorydd / I, Councillor**……………………………………………………………………………………………………………

**yn eich hysbysu yn ysgrifenedig o fuddiant personol a ddatgelais yn y cyfarfod canlynol / give you written notification of a personal interest disclosed by me at the following meeting:**

……………………………………………………………………………………………………………… *(enw'r pwyllgor / name of meeting)*

**a gynhaliwyd ar / held on**……………………………………................. ………………………………*(dyddiad y cyfarfod / date of meeting)*

| **Enw a rhif yr eitem / Name and number of item:** |
|---|
| |

| **Manylion y buddiant personol / Details of Personal Interest:** |
|---|
| |

☐ **Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu / It was not a prejudicial interest**

☐ **Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadewais y cyfarfod / It was a prejudicial interest and I left the meeting**

☐ **Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ond derbyniais ollyngiad wrth y Pwyllgor Safonau / It was a prejudicial interest but I have received a dispensation from the Standards Committee**

**Arwyddwyd / Signed**……………………………………………………………………………………………………………

**Dyddiad / Date**……………………………………………………………………………………

**Oes Gennych fuddiant personol?**
*(gweler para 10 o'r Cod Ymddygiad)*

↓

**Oes**

↓

**Datgelu ar lafar natur y buddiant a chwblhau'r ffurflen**
*(Hyd yn oed os oes gennych ollyngiad)*

↓

- **A yw'n fuddiant sy'n rhagfarnu?**
  *(beth fyddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd feddwl?- gweler para. 12(1))*
- **Oes eithriad perthnasol?**
  *(gweler para 12(2) a (3))*

↓

**Buddiant sy'n rhagfarnu** → **Gadael y cyfarfod**

**Ddim yn fuddiant sy'n rhagfarnu** → **Aros a chymryd rhan *lawn*** *(siarad a phleidleisio)*

---

**Do you have a personal interest?**
*(see para 10 of the Code of Conduct)*

↓

**Yes**

↓

**Disclose orally the nature of the interest and complete form**
*(even if you have a dispensation)*

↓

- **Is it a prejudicial interest?**
  *(what would it be reasonable for a member of the public think?-see para. 12(1))*
- **Is there a relevant exemption?**
  *(see para 12(2) a (3))*

↓

**Prejudicial Interest** → **Leave the meeting**

**Not a prejudicial interest** → **Remain and take part in full** *(speak and vote)*

# Eitem 7

| Pwyllgor : | Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| **Dyddiad :** | **27 Ionawr 2020** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol)** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd un penderfyniad gan yr Ombwdsmon ers yr adroddiad diwethaf. Ar hyn o bryd rydym yn ymwybodol o un gŵyn y mae'r Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad iddi ac un lle mae'n ystyried os dylai ymchwilio.

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion y cafwyd penderfyniad arnynt hyd yn hyn eleni (2019/20):

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 0 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | 0 |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | 0 |
| Swyddog | 0 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 1 |
| Datgan Buddiant | 0 |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | 0 |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 1 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 0 |
| Ymchwiliad – tystiolaeth o dorri'r Cod ond dim camau pellach | 0 |
| Ymchwiliad - cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | 0 |
| Ymchwiliad - cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru | 0 |

**4. Achosion Agored**

Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio** **1**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad** **1**

**5. Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth